For everyone, for 80 years

Ni yw Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy ac rydym yma ar gyfer pawb

Adroddiad Blynyddol 2019

cyngor ar bopeth | citizens advice | Sir Fynwy Monmouthshire County

Adroddiad y Cadeirydd – Mae'r ystadegau yn olrhain stori eu hunain. Mae ein tîm bach o weithwyr a'r grŵp mwy o wirfoddolwyr yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau bod pobl Sir Fynwy yn ymwybodol o'u hawliau o dan y gyfraith ac yn cael eu helpu i arfer eu hawliau. Nid yw hon dasg fechan gan fod y tirwedd yn newid yn barhaus gyda heriau newydd, fel cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, yn digwydd yn barhaus sydd yn golygu nad oes diwedd ar broblemau tai a dyledion. Ni fyddem yn medru gwneud hyn oni bai am gefnogaeth gan y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned, sydd – er gwaethaf eu heriau ariannol eu hunain – yn cydnabod ac yn ein cefnogi gyda'r gwaith hwn.

Wrth i ni edrych at y dyfodol, bydd yna newidiadau wrth i ni fanteisio ar y cyfleoedd sydd yn dod 'r amlwg yn sgil technoleg er mwyn medru cyrraedd mwy o gleientiaid mewn ffyrdd sydd yn gyfleus iddynt hwy, tra'n cynnal eu hymrwymiad at wasanaeth wyneb i wyneb ar y stryd fawr sydd yn cael ei werthfawrogi gan y cyhoedd. Mae'r ansicrwydd hwn yn waeth yn sgil adolygiad sylweddol o gyllid Llywodraeth Cymru sydd yn golygu ei bod hi'n anodd rhagweld yr hyn sydd yn mynd i ddigwydd yn y dyfodol ac rydym yn cryfhau ein gwaith o gydweithio gyda gwasanaethau Cyngor Ar Bopeth cyfagos sydd yn rhannu ein hamcanion.

Yn ystod y flwyddyn, roedd adolygiad y Bwrdd o'r gweithrediadau wedi adnabod angen i gryfhau ei ystod o sgiliau, ac rwy'n falch medru dweud ein bod wedi apwyntio aelodau newydd o'r Bwrdd er mwyn diwallu'r angen hwn. Rwyf yn ddiolchgar o gefnogaeth holl aelodau ein Bwrdd bach sydd yn benderfynol o sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn parhau i helpu pobl y Sir.

Roger Chater, Cadeirydd, Cyngor Ar Bopeth Sir Fynwy

Ystadegau Allweddol 2018-2019

Nifer y cleientiaid a helpwyd	4000
Materion	7934

Categorïau'r Cyngor

	Materion	Cleientiaid
Budd-daliadau a Chredydau Treth	3038	1338
Dyledion	780	424
Tai	648	409
Perthnasau a Theuluoedd	620	418
Cyflogaeth	563	354
Arall	2285	1057

Wedi ei Awdurdodi a'i Reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol- FRN 617672.

Rhif Elusen Gofrestredig 1125068

Rhif Cwmni Cofrestredig 6532431

Gwerth Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth yn cynnig nifer o fanteision. Rydym yn helpu gwirfoddolwyr i:

- Cael y profiad a'r hyder i symud i mewn i waith
- Gwella'r cyfle i sicrhau swydd drwy ddatblygu sgiliau
- Rheoli cyflyrau iechyd meddwl yn well fel iselder
- Gwella eu hymdeimlad o hunanwerth, lleihau arwahanrwydd a gwella sgiliau cyfathrebu
- Profiad o gael ymdeimlad o berthyn drwy weithio yn y gymuned
- Mae mwy na 90 o wirfoddolwyr wedi ein cefnogi yn 2018/19

Diolch i'r sawl sydd wedi ein hariannu

Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Fynwy, Cynghorau Tref Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent, Trefynwy a Brynbuga. Cynghorau Cymuned Caerwent, Llanarth Fawr, Llan-ffwyst Fawr, Llangattock vibon Avel, Llannofer, Llandeilo Gresynni, Magwyr a Gwndy, Mitchel Troy, Porthsgiwed a Sudbrook, Rogiet, St Arvans, Drenewydd Gelli-farch a Thryleg. Clwb Rotari Trefynwy a Ffrindiau Cyngor AR Bopeth Sir Fynwy. Diolch i chi.

Sut ydym yn helpu?

"Roeddwn mewn darnau ac roeddech wedi mynd ati i'm helpu. Nid oeddwn byth wedi dychmygu canlyniad mor ffantastig a byddem ar goll yn llwyr oni bai amdanoch. Diolch o galon!"

Roedd perthynas Sarah, sydd yn fam sengl i wyth o blant, a'i phartner wedi chwalu yn ddiweddar ac roedd hyn wedi achosi cryn drallod iddi. Rhaid oedd iddi ddelio nid yn unig gyda'r goblygiadau emosiynol ond rhaid oedd dod o hyd i'r arian sydd angen er mwyn bwydo teulu mawr a darparu ar eu cyfer. Roedd Sarah mewn argyfwng ariannol pan ddaeth hi i'n gweld, a hynny o ran dyledion ac incwm isel. Roedd yn isel iawn ei hysbryd. Hysbysodd Sarah Credydau Treth o'r newidiadau yn ei sefyllfa, ond roedd ei harian yn eithriadol o isel. Roeddem wedi treulio amser yn mynd drwy ei cheisiadau am fudd-daliadau, drwy'r llythyron dyfarnu a'r datganiadau banc cyn sylwi nad oedd wedi derbyn y taliadau dyledus a oedd yn werth miloedd o bunnoedd. Roeddem wedi cysylltu gyda Chredydau Treth a Budd-daliadau Plant am hyn, ac wedi ychydig o amser, roeddem wedi llwyddo i amlygu'r problemau yma a thalwyd yr arian i Sarah. Roedd wedi gorfoleddu. At hyn, roeddem wedi sylwi fod Sarah wedi derbyn gordaliad o ran Credyd Treth. Roeddem wedi cymryd camau er mwyn cywiro hyn, ac wedi cynnig esboniad, llwyddom i ddileu'r ddyled. Yn olaf, roeddem wedi llwyddo i drefnu taliadau wythnosol newydd iddi. Roedd wrth ein bodd ein bod yn medru helpu yn syth a sicrhau canlyniad mor ffantastig! Roedd hyn wedi helpu ei lefelau straen ac mae'n medru treulio amser nawr yn ceisio gwella a gofalu am ei phlant, heb boeni am broblemau ariannol.

Roedd 3 ym mhob 4 o Gleientiaid Cyngor Ar Bopeth wedi profi sgil-effeithiau negatif o ganlyniad i'w problemau ond roeddem wedi eu helpu i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Sut ydym yn gwario ein harian

Incwm:		£202,853
Gwariant:		
Gweithgareddau Elusennol		£217,451
Llywodraethiant		£ 3,000
Cyfanswm Gwariant		£220,451

Mantolen ar 31 Mawrth 2019

As	£	0
Asedau Cyfredol	£136,356	
Asedau Cyfredol Net		£127,281
Asedau Net		£127,281
Cronfeydd Cyfyngedig		-£ 243
Cronfeydd Anghyfyngedig	£146,609	

Ein harchwilwyr yw bdhc, Cyfrifyddion Siartredig

Cyngor cyfrinachol, am ddim. Pwy bynnag a ble bynnag yr ydych.

Rydym yn helpu pobl i oresgyn eu problemau ac yn ymgyrchu ar faterion pwysig pan fydd angen clywed eu lleisiau.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb a'n herio gwahaniaethu ac aflonyddu. Rydym yma ar gyfer pawb.

Sut ydym yn medru eich helpu chi?

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi eu hyfforddi mewn nifer o feysydd gan gynnwys

- Budd-daliadau Lles
- Materion ariannol a dyledion
- Cyflogaeth
- Hawliau Prynwyr
- Tai
- Anghydfod rhwng cymdogion
- Gwneud cwynion
- Materion treth
- Materion teuluol a phersonol
- Newid cyflenwyr ynni, arbed tanwydd a grantiau
- Pensiynau

Sicrwydd Gwybodaeth

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Ar Bopeth yn goruchwylio diogelwch y wybodaeth sydd yn cael ei brosesu ynglŷn â'n cleientiaid, staff, cyllidwyr a phartneriaid strategol. Mae'r Gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth Lleol yn gyfrifol ar y cyd am ddata ein cleientiaid sydd yn ein system rheoli achosion, gyda'r Gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth Cenedlaethol. Mae Tîm Rheoli Sicrwydd Ansawdd yn bodoli er mwyn sicrhau bod cyfrinachedd, hygrededd ac argaeledd yr holl ddata personol a sensitif yn cael ei gynnal mewn modd sydd yn gyson ag anghenion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018.

Ble ydym yn medru eich helpu?

Y Fenni - Cross Street

(Llun, Mawrth, Iau, Gwener 10 - 3)

Cil-y-coed – Heol yr Eglwys

(Llun, Mawrth, Mercher, Iau 10 - 1)

Cas-gwent - The Gate House, Y Stryd Fawr

(Llun, Mawrth, Mercher, Iau 10 - 3)

Trefynwy – Stryd Whitecross

(Llun, Mawrth, Mercher, Gwener 10 - 2)

Lleoliadau Allgymorth (Gorffennaf 19)

Y Fenni – Menter Gymunedol (Mawrth 12.30 - 3)

Y Fenni – Banc Bwyd (Mawrth 12 - 2)

Undeb Credyd Gateway, Bulwark,

Cas-gwent (Iau 1 - 4)

Brynbuga - Hyb Cymuned (Iau 10.30 - 12.30)

Ffyrdd eraill o dderbyn gwasanaeth:

Mae modd cael mynediad 24 awr y dydd ar wefan Cyngor Ar Bopeth Cenedlaethol www.citizensadvice.org.uk

Mae Cyngor Dros y Ffôn ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9 a 5, ar 0344 477 20 20

Mae gwasanaeth gwe-sgwrs ar gael ar wefan Cyngor Ar Bopeth Cenedlaethol fel y nodir uchod, lle y mae modd 'Siarad gyda Chynghorydd'